**Eitem: 10**

**Teitl:** Fframwaith ymddygiad

| | |
|---|---|
| **Gweithredu / Action required** | Am benderfyniad |
| **Amseru / Timing** | Arferol |
| **Argymhelliad / Recommendation** | Gofynnir i'r Bwrdd gymeradwyo'r fframwaith ymddygiad drafft. |
| **Risg / Risk** | **CR1 – Pobl a sgiliau** – sicrhau ein bod yn cadw ac yn caffael y cymysgedd sgiliau mewn meysydd allweddol i sicrhau ein bod yn darparu'r gwasanaethau gorau.<br><br>**CR3 – Gwirfoddolwyr** – gallu gwneud defnydd llawn o wirfoddolwyr presennol i ddarparu gwasanaethau<br><br>Mae hefyd yn cyd-fynd ag A**rchwaeth Risg RA8** - archwaeth eiddgar i helpu ein pobl i wneud pethau'n wahanol ac yn well. |
| **Cyllid / Finance** | Dim goblygiadau ariannol mewn perthynas â chymeradwyo'r fframwaith. |
| **Amcan Cynllun Corfforaethol / Corporate Plan Objective/Amcan Rhaglen/ Programme objective** | WBS 2023 - 2024:<br>B7 - Bod yn sefydliad uchelgeisiol sy'n cael ei redeg yn dda, y gellir ymddiried ynddo.<br>B6 - Datblygu ein pobl, denu pobl newydd a chefnogi eu cyfranogiad yn ein gwaith.<br>B3 - Ei gwneud hi'n hawdd cysylltu â chi a'n partneriaid, trwy fod yn hygyrch ac yn gynhwysol.<br><br>Strategaeth 2024-2027 - Blaenoriaeth 05. Esblygu fel sefydliad i ddod yn sefydliad aeddfed, sy'n cael ei redeg yn dda, y gellir ymddiried ynddo ac sy'n uchelgeisiol. |
| **Ecwiti, Amrywiaeth a Chynhwysiant / Equity, Diversity & Inclusion** | Amh |

| | |
|---|---|
| **Cyfathrebu / Communications** | Ticiwch un o'r blychau canlynol os bydd y gweithgaredd hwn yn cael effaith ar:<br>**Mewnol:** ein pobl☒<br>**Allanol:** ein cwsmeriaid/partneriaid/rhanddeiliaid☐<br>**Allanol:** enw da ein sefydliad☐ |
| **Cymeradwyaeth / Approval/Clearance** | Cyfarwyddwr Strategol Gweithrediadau a Gwasanaethau Corfforaethol |
| **Trafodaethau/ Penderfyniadau Blaenorol / Previous discussions/decisions** | Tîm Arwain ar 11 Medi 2024, wedi'i gymeradwyo i'w gyflwyno i'r Bwrdd. |
| **Awdur/ Cyflwyno / Author/presenting** | Cyfarwyddwr Pobl, Llesiant a Datblygiad Sefydliadol/ Cyfarwyddwr Strategol Gweithrediadau a Gwasanaethau Corfforaethol |
| **Dyddiad / Date** | 12 Medi 2024 |

## Cefndir

Mae'r adroddiad hwn yn gofyn i'r Bwrdd gymeradwyo'r fframwaith ymddygiad drafft i'w weithredu'n sefydliadol ar gyfer ein holl bobl. Mae wedi cael ei ddatblygu gyda staff a gwirfoddolwyr ac rydym hefyd wedi casglu adborth gan aelodau o'r cyhoedd ehangach a rhanddeiliaid. Mae fframwaith safonau ymddygiad yn set o ymddygiadau sy'n diffinio'r disgwyliadau ar gyfer ein pobl. Bydd yn helpu i lunio amgylchedd cadarnhaol a pharchus trwy arwain rhyngweithio cadarnhaol, gwneud penderfyniadau a chamau gweithredu a gymerwn.

## Manylion / Detail

Yn dilyn trafodaethau blaenorol yn Tîm Arwain a'r cynadleddau staff, a oedd yn cynnwys cyfres o sesiynau gweithdy grŵp rhyngweithiol, mae'r ddogfen 'ein fframwaith ymddygiad' wedi'i datblygu. Casglwyd sylwadau ac adborth pellach hefyd a'u hintegreiddio i'r fframwaith trwy ymgynghori ymhellach â'n staff a'n gwirfoddolwyr. Ceisiwyd hefyd ymgysylltu ag aelodau o'r cyhoedd ehangach, a ystyriwyd a lle bo'n briodol, ei integreiddio i'r ddogfen yn dilyn yr ymarfer sgwrsio cynllun 100 diwrnod.

Unwaith y cânt eu cymeradwyo bydd y safonau ymddygiad hyn yn:

- Diffinio disgwyliadau – bydd yn egluro i'n holl bobl sut yr ydym yn disgwyl i unigolion ryngweithio'n fewnol ac yn allanol ag eraill wrth gynrychioli Llais.

- Llunio ein diwylliant sefydliadol – adeiladu a chynnal diwylliant trawsnewidiol trwy ddiffinio ymddygiadau dymunol ac annymunol yn glir a sut mae'r rhain yn berthnasol i'n gwerthoedd sefydliadol.
- Dod yn sylfaen annatod i holl swyddogaethau pobl – bydd yr egwyddorion a gynhwysir yn y fframwaith o gymorth mewn sawl ffordd gan gynnwys; dylunio rôlau ar gyfer staff a gwirfoddolwyr, adolygu a gwella arferion recriwtio, adolygiadau perfformiad, arweinyddiaeth a phrosesau datblygu dysgu.
- cael eu hymgorffori mewn adolygiadau yn y dyfodol o'r holl bolisïau, gweithdrefnau a phrosesau perthnasol i sicrhau bod y safonau hyn yn dod yn ganolog i'r ffordd y mae ein pobl yn ymddwyn.